# Ymgynghoriad ar sut mae Estyn yn arolygu

Estyn yw swyddfa Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Mae'n annibynnol ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru, ond yn cael ei hariannu ganddo. Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio eich barn ar arolygiadau Estyn. Caiff unrhyw newidiadau eu gwneud o Fedi 2017.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â'r sectorau canlynol:

- ysgolion cynradd
- ysgolion uwchradd
- ysgolion pob oedran
- ysgolion wedi'u ffedereiddio
- ysgolion arbennig
- unedau cyfeirio disgyblion
- ysgolion annibynnol ac ysgolion a cholegau arbennig annibynnol
- addysg a hyfforddiant cychwynnol athrawon
- sefydliadau addysg bellach
- dysgu oedolion yn y gymuned
- dysgu yn y gwaith

Nid yw lleoliadau nas cynhelir ac awdurdodau lleol wedi eu cynnwys, er y gall yr adborth lywio trefniadau arolygu yn y sectorau hynny yn y dyfodol.

Adolygwyd y trefniadau arolygu ar gyfer y sector addysg bellach y llynedd er mwyn adlewyrchu'r newid yn y sector yn yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Bydd yr ymgynghoriad hwn yn effeithio ar y fframwaith arolygu ar gyfersefydliadau addysg bellach . ond gall unrhyw addasiadau gael eu cyflwyno dros gyfnod hwy ac yn sgil arfarniad o'r trefniadau newydd yn y sector.

Cyflwynodd Estyn y trefniadau arolygu presennol ym Medi 2010 ar ddechrau cylch chwe blynedd o arolygiadau (2010-2016) ar gyfer y rhan fwyaf o sectorau y mae'n eu harolygu. Roedd adolygiad canol cylch, a gwblhawyd gan Estyn ar ddechrau 2012, yn dangos bod rhanddeiliaid yn gyffredinol gadarnhaol ynghylch y trefniadau hyn. Yn 2013, ymgynghorodd Estyn a Llywodraeth Cymru ar newidiadau i amlder arolygiadau a'r cyfnod hysbysu a roddir cyn arolygiad. O ganlyniad, newidiwyd y rheoliadau i dorri ar ragweladwyedd amseriad arolygiadau ysgol.

Ers hynny, cynlluniwyd newidiadau mawr ar gyfer y system addysg yng Nghymru o ganlyniad i'r Fargen Newydd ac adroddiadau Dyfodol Llwyddiannus ac Addysgu Athrawon Yfory. Mae'n gyfle da i edrych unwaith eto ar beth a sut mae Estyn yn arolygu. Mae Estyn yn croesawu trafodaeth eang â dysgwyr, gweithwyr proffesiynol, rhieni neu ofalwyr ac unrhyw un sydd â diddordeb mewn addysg ynghylch ein trefniadau arolygu yn y dyfodol.

Mae rhai agweddau ar sut mae Estyn yn arolygu yn ofynion cyfreithiol. Byddai unrhyw newidiadau i'r rhain yn cymryd ychydig bach mwy o amser ac yn destun ymgynghori pellach.

## Sut i gyflwyno eich barn

Mae dwy ffordd y gallwch lenwi a chyflwyno eich ymateb:

1 Llenwch yr holiadur ar-lein yn www.estyn.llyw.cymru/ymgynghoriad

2 Argraffwch y ddogfen hon a phostiwch eich ymateb i:

Swyddog yr ymgynghoriad,
Estyn,
Llys Angor,
Heol Keen,
Caerdydd
CF24 5JW

Caiff yr ymgynghoriad ei lansio ar 30 Medi 2015 a bydd yn cau ar 11 Tachwedd 2015. Gwnewch yn siŵr fod pob ymateb drwy'r post yn cyrraedd Estyn erbyn y dyddiad hwn.

## Cyfrinachedd

Bydd y wybodaeth a ddarperir yn cael ei chadw gan Estyn ac ni fydd ymatebion unigol yn cael ei rhannu ag unrhyw un y tu allan i'r sefydliad. Caiff y wybodaeth ei defnyddio i helpu i wella sut mae Estyn yn arolygu addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Os byddwch yn datgelu pwy ydych, caiff hyn ei drin yn gyfrinachol.

## Gwybodaeth allweddol amdanoch chi

Dewiswch un opsiwn isod sy'n disgrifio orau ym mha rinwedd rydych chi'n llenwi'r holiadur hwn.

| Dysgwr | Rhiant/gofalwr | Gweithiwr addysg proffesiynol | Aelod o'r cyhoedd |
|---|---|---|---|
| ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Arall (rhowch fanylion): | | | |

Pa sector(au) y mae gennych chi ddiddordeb ynddo/ynddynt? (Dewiswch bob un sy'n berthnasol).

| | | | |
|---|---|---|---|
| Dysgu oedolion yn y gymuned | ☐ | Awdurdodau lleol / consortia rhanbarthol | ☐ |
| Ysgolion pob oed ac ysgolion wedi'u ffedereiddio | ☐ | Ysgolion cynradd | ☐ |
| Lleoliadau'r blynyddoedd cynnar | ☐ | Unedau cyfeirio disgyblion | ☐ |
| Addysg bellach | ☐ | Ysgolion uwchradd | ☐ |
| Ysgolion annibynnol ac ysgolion a cholegau arbennig annibynnol | ☐ | Ysgolion arbennig | ☐ |
| Addysg a hyfforddiant cychwynnol athrawon | ☐ | Dysgu yn y gwaith | ☐ |
| Arall (rhowch fanylion): | | | |

## Cwestiwn 1: Cynllunio arolygiadau cychwynnol

Ar hyn o bryd, mae pob darparwr yn cael ei harolygu yn yr un ffordd. Yn y dyfodol, fe allwn ni arolygu darparwyr mewn ffyrdd gwahanol yn ddibynnol ar ganlyniad ei harolygiad blaenorol neu oherwydd rheswm arall.

**Ticiwch un blwch i ddangos pa un o'r datganiadau isod sydd orau gennych.**

| | | |
|---|---|---|
| Dylai pob darparwr gael eu harolygu yn yr un ffordd<br>☐ | Dylai Estyn edrych ar ei harolygiad diwethaf a gwybodaeth eraill a phenderfynu sut i'w harolygu<br>☐ | Gwneud rhywbeth gwahanol<br>☐ |

Os ydych wedi dewis <u>'gwneud rhywbeth gwahanol'</u>, defnyddiwch y blwch isod i ddweud sut rydych chi'n teimlo y dylai arolygiadau o ddarparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru gael eu cynnal.

| |
|---|
| |

## Cwestiwn 2a: Gweithgarwch dilynol mewn ysgolion

Yn ystod arolygiad, mae arolygwyr yn ystyried a oes angen unrhyw weithgarwch dilynol ar ddarparwr ai peidio.

Ar gyfer ysgolion, mae gan Estyn bedwar categori o weithgarwch dilynol:

| Categori | Disgrifiad |
|---|---|
| Monitro gan yr awdurdod lleol | Mae’r awdurdod lleol yn monitro cynnydd ac yn rhoi adroddiad i Estyn ymhen tua 12-18 mis |
| Monitro gan Estyn | Mae Estyn yn gwirio cynnydd ac/neu yn ymweld â’r ysgol ymhen tua 12-18 mis |
| Gwelliant sylweddol | Mae Estyn yn ymweld â’r ysgol i wirio cynnydd ymhen tua 12 mis |
| Mesurau arbennig | Mae Estyn yn ymweld â’r ysgol bob tymor i wirio cynnydd |

**A ydych chi’n teimlo bod y pedair lefel monitro hyn yn effeithiol ar gyfer ysgolion?**

| Ydw | Nac ydw | Ddim yn siŵr / Dim barn |
|---|---|---|
| ☐ | ☐ | ☐ |

## Cwestiwn 2b: Gweithgarwch dilynol mewn darparwyr ôl-16

Ar gyfer darparwyr ôl-16, mae dau gategori o weithgarwch dilynol, o’r enw monitro gan Estyn ac ail-arolygiad.?

**A ydych chi’n teimlo bod y ddwy lefel monitro hyn yn effeithiol ar gyfer darparwyr ôl-16?**

| Ydw | Nac ydw | Ddim yn siŵr / Dim barn |
|---|---|---|
| ☐ | ☐ | ☐ |

Defnyddiwch y blwch isod i roi awgrymiadau ar sut y gall Estyn wella ei drefniadau gweithgarwch dilynol ar gyfer ysgolion a darparwyr ôl-16.

## Cwestiwn 3:  Fframwaith arolygu cyffredin Estyn

Mae'r fframwaith arolygu cyffredin yn dweud wrth bawb beth rydym yn chwilio amdano mewn arolygiad.  Mae tri chwestiwn allweddol (Cwestiwn Allweddol 1,2 a 3) wedi eu rhannu yn 10 maes (1.1 -3.4).  Ar hyn o bryd, rydym yn gofyn cwestiynau am bob un o rain.

Mae mwy o wybodaeth am yr hyn y mae arolygwyr yn chwilio amdano ar gyfer pob dangosydd ansawdd ar gael ar wefan Estyn:
http://www.estyn.llyw.cymru/arolygu/esbonio-arolygu/fframwaith-arolgu-cyffredin

**Pa mor bwysig ydyw ein bod yn arolygu pob un o'r meysydd?**

| | **Pwysig iawn** | **Pwysig** | **Ddim yn bwysig iawn** | **Ddim yn bwysig o gwbl** | **Ddim yn siwr** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 1:  Deilliannau i ddysgwyr** | | | | | |
| 1.1 Safonau – a yw dysgwyr yn gweithio'n dda ac yn cael canlyniadau da? | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| 1.2 Lles – a yw dysgwyr yn mwynhau addysg? | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| **Cwestiwn Allweddol 2:  Ansawdd y ddarpariaeth** | | | | | |
| 2.1 Profiadau dysgu – a yw pynciau (y cwricwlwm) yn helpu dysgu? | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| 2.2 Addysgu – a yw'r addysgu yn bodloni anghenion dysgwyr? | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| 2.3 Gofal, cymorth ac arweiniad – a oes cymorth ar gael pan mae ei angen ar ddysgwyr? | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| 2.4 Amgylchedd dysgu – a yw'r darparwr yn lle, cadarnhaol i ddysgu ynddo? | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| **Cwestiwn Allweddol 3:  Arweinyddiaeth** | | | | | |
| 3.1 Arweinyddiaeth a rheolaeth – a oes arweinyddiaeth dda? | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| 3.2 Gwella ansawdd – a yw'r darparwr yn parhau i wella? | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| 3.3 Gweithio mewn partneriaeth – a yw'r darparwr yn cydweithio ag eraill i helpu dysgwyr? | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| 3.4 Rheoli adnoddau – a yw'r darparwr yn gwneud defnydd da o arian a staff? | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

Defnyddiwch y blwch isod i roi awgrymiadau ar unrhyw feysydd rdych chi'n teimlo y dylai Estyn roi blaenoriaeth iddynt neu ganolbwyntio arnynt mewn arolygiadau, gan gynnwys meysydd nad ydynt yn cael eu cynnwys yn y fframwaith presennol.

| |
|---|
| |

**Cwestiwn 4a: Geiriau barnau Estyn**

Ar hyn o bryd, mae Estyn yn defnyddio'r geiriau a'r disgrifiadau canlynol yn ei adroddiadau i ddisgrifio darparwyr.

| Gair barn | Yr hyn y mae'r farn yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

**A ydych chi'n credu y dylai Estyn barhau i ddefnyddio'r pedwar gair a'r disgrifiadau hyn ar gyfer barnau arolygiadau?**

| Ydw | Nac ydw | Ddim yn siŵr / Dim barn |
|---|---|---|
| ☐ | ☐ | ☐ |

Os gwnaethoch chi ddewis 'Nac ydw', defnyddiwch y blwch isod i ddweud beth rydych chi'n credu fyddai'n fwy defnyddiol.

| |
|---|
| |

## Cwestiwn 4b: Llunio barnau

Ar hyn o bryd, mae Estyn yn llunio 15 barn mewn adroddiad arolygu. Mae arolygwyr yn llunio barn yn erbyn pob un o'r 10 dangosydd ansawdd a ddisgrifiwyd ynghynt yng nghwestiwn 3 (safonau, lles, addysgu ac ati). Yna, maent yn defnyddio'r canfyddiadau hyn i lunio barn ar gyfer tri chwestiwn allweddol ar ddeilliannau, darpariaeth ac arweinyddiaeth. Hefyd, mae arolygwyr yn llunio dwy farn ar berfformiad cyffredinol y darparwr a pha mor debygol ydyw o wella.

**Beth yw eich barn chi ar nifer y barnau gwahanol y mae Estyn yn eu llunio?**

| Llawer gormod | Gormod | Yn briodol | Rhy ychydig | Rhy ychydig o lawer | Ddim yn siŵr / Dim ymateb |
|---|---|---|---|---|---|
| ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

Defnyddiwch y blwch isod i esbonio eich ateb ac i wneud rhagor o sylwadau ar yr hyn y dylai Estyn lunio barnau arno.

| |
|---|
| |

## Cwestiwn 5: Cyfnodau hysbysu

Er 2010, mae darparwyr ar draws y rhan fwyaf o sectorau wedi cael 20 diwrnod gwaith o rybudd cyn arolygiad.

**Beth yw eich barn chi am y cyfnod hysbysu presennol?**

| Rhy hir o lawer | Rhy hir | Yn briodol | Rhy fyr | Rhy fyr o lawer | Ddim yn siŵr / Dim ymateb |
|---|---|---|---|---|---|
| ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

Defnyddiwch y blwch isod i ddweud beth rydych chi'n teimlo y dylai'r cyfnod hysbysu fod ac i esbonio'r rhesymau am hynny.

| |
|---|
| |

**Cwestiwn 6: Cynnwys rhieni/gofalwyr, disgyblion, staff a llywodraethwyr mewn arolygiadau**

**Rhieni/gofalwyr mewn ysgolion**

Ar hyn o bryd, gall rhieni/gofalwyr lenwi holiadur ar-lein a mynd i gyfarfod rhieni/gofalwyr cyn i'r arolygiad ddechrau i rannu eu barn.

**Cwestiwn 6a: A ddylai Estyn barhau i ddefnyddio holiaduron dienw i gael barn rhieni/gofalwyr cyn arolygiad?**

| Dylai | Ni ddylai | Ddim yn siŵr / Dim barn |
|---|---|---|
| ☐ | ☐ | ☐ |

**Cwestiwn 6b: A ddylai Estyn barhau i wahodd rhieni/gofalwyr i gyfarfod fel rhan o arolygiad?**

| Dylai | Ni ddylai | Ddim yn siŵr / Dim barn |
|---|---|---|
| ☐ | ☐ | ☐ |

**Dysgwyr**

Ar hyn o bryd, mae cyfran o ddysgwyr dros saith oed yn llenwi holiadur ar-lein cyn arolygiad. Mae arolygwyr hefyd yn cyfarfod â grwpiau o ddysgwyr yn ystod arolygiadau ac yn siarad â dysgwyr unigol wrth iddynt arsylwi gwersi.

**Cwestiwn 6c: A ddylai Estyn barhau i ddefnyddio holiaduron dienw i gael barn dysgwyr cyn arolygiad?**

| Dylai | Ni ddylai | Ddim yn siŵr / Dim barn |
|---|---|---|
| ☐ | ☐ | ☐ |

**Staff**

Mae arolygwyr yn cyfweld â rhai aelodau staff yn ystod arolygiadau, ond nid yw Estyn yn defnyddio holiadur staff i alluogi pob aelod staff i rannu ei farn/barn.

**Cwestiynau 6ch: A ddylai Estyn gyflwyno holiaduron staff dienw cyn arolygiad?**

| Dylai | Ni ddylai | Ddim yn siŵr / Dim barn |
|---|---|---|
| ☐ | ☐ | ☐ |

**Llywodraethwyr**

Os oes gan ddarparwr gorff llywodraethol neu gorff tebyg, mae arolygwyr yn cyfweld â chadeirydd y llywodraethwyr a nifer fach o gynrychiolwyr eraill y corff.

**Cwestiwn 6d: A ddylai Estyn gyflwyno holiaduron dienw i bob llywodraethwr cyn arolygiad?**

| Dylai | Ni ddylai | Ddim yn siŵr / Dim barn |
|---|---|---|
| ☐ | ☐ | ☐ |

Defnyddiwch y blwch isod i roi awgrymiadau ar sut y gall Estyn wella ymhellach y modd y mae'n cynnwys pawb yn ei arolygiadau.

| |
|---|
| |

**Cwestiwn 7: Adroddiadau arolygu**

Er mwyn bod yn ddefnyddiol, dylai adroddiadau arolygu fod yn hawdd eu deall a'u cyhoeddi'n fuan ar ôl yr arolygiad. Dylent roi darlun clir i'r darllenydd o gryfderau a gwendidau'r darparwr. Dylent hefyd helpu darparwyr i wella.

**Gan ddefnyddio'r diffiniad uchod o ddefnyddioldeb, i ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod adroddiadau arolygu Estyn yn ddefnyddiol?**

| Cytuno'n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf | Ddim yn siŵr / Dim ymateb |
|---|---|---|---|---|---|
| ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

Defnyddiwch y blwch isod i roi awgrymiadau ar sut y gall Estyn wella ei adroddiadau arolygu.

| |
|---|
| |

## Cwestiwn 8: Arolygwyr lleyg

Mae arolygwyr lleyg yn aelodau o'r cyhoedd sy'n cael eu hyfforddi gan Estyn i gymryd rhan mewn arolygiadau ysgol. Nid ydynt yn weithwyr addysg proffesiynol, ond maent yn rhoi barn unigolyn lleyg.

**I ba raddau ydych chi'n cytuno neu anghytuno y dylai Estyn gynnwys arolygydd lleyg ar dimau arolygu ysgolion?**

| Cytuno'n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf | Ddim yn siŵr / Dim ymateb |
|---|---|---|---|---|---|
| ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

Defnyddiwch y blwch isod i esbonio eich dewis a rhoi unrhyw awgrymiadau eraill am ddefnyddio arolygwyr lleyg mewn arolygiadau.

## Cwestiwn 9: Sylwadau cyffredinol

Ymgynghorodd Estyn ar ei drefniadau arolygu yn 2012 ac roedd cefnogaeth gref i agweddau fel:

- dylai uwch aelod staff o ddarparwr tebyg ('arolygydd cymheiriaid') gael ei gynnwys yn aelod o'r tîm arolygu
- dylai uwch aelod staff o'r darparwr gael ei (g)wahodd i ymuno â'r tîm arolygu fel enwebai
- dylai'r arolygiad adeiladu ar hunanarfarniad y darparwr

Mae Estyn yn ymrwymo i wella'r ffordd y mae'n arolygu a'i nod yw adeiladu ar y cryfderau hyn.

Mae gennym ddiddordeb mewn clywed eich barn chi ar sut y gallwn wneud ein gwaith yn fwy effeithiol.

**Defnyddiwch y blwch isod i roi adborth ar unrhyw agwedd arall ar drefniadau arolygu Estyn a chynnig awgrymiadau ar unrhyw fater arall y dylid ei ystyried fel rhan o'r adolygiad.**

**Gwybodaeth ychwanegol**

Os ydych yn ymateb ar ran sefydliad, defnyddiwch y blwch isod i roi enw'r sefydliad.

| |
|---|
| |

Os ydych chi'n fodlon i Estyn gysylltu â chi eto mewn perthynas â'ch sylwadau, rhowch eich manylion cyswllt isod:

| |
|---|
| |

Diolch i chi am gymryd rhan yn ymgynghoriad Estyn. Bydd y wybodaeth a geir yn cael ei defnyddio i ddatblygu'r modd y mae Estyn yn arolygu. Bydd y trefniadau newydd yn dechrau ym Medi 2017. Os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr ymgynghoriad, cysylltwch ag Estyn trwy'r ebost : ymgynghoriad@estyn.llyw.cymru